# Adroddiad Arolygu

**Cynllun Gofal Melin Gruffydd**

**Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd**
**Heol Glan y Nant**
**Yr Eglwys Newydd**
**Caerdydd**
**CF14 1AP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cynllun Gofal Melin Gruffydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Menter Caerdydd |
| Lleoedd cofrestredig | 55 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Awst 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb


Caiff y plant sawl cyfle i wneud dewisiadau. Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Maent yn cael budd o brofiadau chwarae da a chânt ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae'r staff yn broffesiynol ac yn llawn cymhelliant. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar tuag at ei gilydd a'r plant. Mae'r staff yn cefnogi chwarae'r plant yn effeithiol drwy amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd wedi'u cynllunio.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae amrywiaeth o gyfarpar ac adnoddau dan do ac yn yr awyr agored yn annog y plant i chwarae. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi trefnu'r gweithgareddau a'r adnoddau yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bob un sy'n mynychu'r lleoliad.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth wedi gwella'n sylweddol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol newydd, ynghyd â'r person â chyfrifoldeb, wedi rhoi mesurau newydd ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Mae pob un o'r Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth a'r Meysydd i'w Gwella o'r arolygiad blaenorol wedi cael eu cyflawni.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i wneud penderfyniadau am sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn dewis beth i'w chwarae a gallant wneud dewisiadau drwy gydol y dydd. Er enghraifft, gwelsom y plant yn dewis rhwng amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a oedd yn cael eu cynnig iddynt, gan gynnwys paentio wynebau a chrefftau Pasg. Mae plant o bob oed yn mynegi eu hunain yn hyderus. Maent yn gwybod bod y staff yn gwrando ar eu hanghenion a'u dymuniadau ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae. Er enghraifft, gwelsom y plant yn pleidleisio er mwyn dewis pa ardal chwarae awyr agored y byddent yn mynd iddi ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae lleisiau'r plant yn bwysig yn y lleoliad. Caiff eu diddordebau eu hystyried wrth gynllunio gweithgareddau'r dyfodol. Mae'r plant yn hapus, wedi setlo, yn hyderus ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Gwelsom y plant yn gofyn am help a chymorth yn hyderus. Maent yn gwahodd y staff i chwarae yn frwdfrydig ac yn gwenu'n hapus wrth sgwrsio â nhw. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion sy'n ychwanegu at eu hymdeimlad o ddiogelwch ac o berthyn. Er enghraifft, gwelsom y plant yn gwisgo eu cotiau yn llawn brwdfrydedd er mwyn chwarae yn yr awyr agored ar ôl iddynt orffen bwyta eu byrbryd.

Mae'r plant yn cyd-chwarae â'i gilydd yn dda. Gwelsom y plant yn chwerthin wrth wthio ei gilydd ar fwrdd bach ar olwynion. Mae'r plant yn gwneud ffrindiau, ac fe'u gwelsom yn sgwrsio'n hapus â'i gilydd yn ystod amser cinio ac mewn ardal dawel yn ystod y cyfnod chwarae rhydd. Maent yn dangos parch at bobl ac yn cymryd gofal o'r cyfarpar a'r adnoddau yn y gwasanaeth.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn ymddiddori yn eu chwarae. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol. Er enghraifft, gwelsom y plant yn ychwanegu eu henwau at restr er mwyn aros eu tro i chwarae gemau cyfrifiadurol, gwelsom y plant yn cydweithio i adeiladu tŵr o flociau a phlant yn chwarae'n hapus ochr yn ochr â'u ffrindiau ar y cyfarpar chwarae meddal. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau dan arweiniad y plentyn a gweithgareddau dan arweiniad yr oedolyn. Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i gychwyn eu chwarae eu hunain.

Mae'r plant yn cael digonedd o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Gwelsom y plant iau yn cael eu hannog i wisgo eu hesgidiau eu hunain er mwyn mynd allan i chwarae. Mae plant o bob oedran yn mynd i'r toiledau ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol.

| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| --- | --- |

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf gan gynnwys cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu. Mae maes i'w wella, a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf, a oedd yn ymwneud â thystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig dilys i'r staff, wedi ei gyflawni a bellach wedi'i gau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi blaenoriaeth i drefniadau diogelu ac yn sicrhau bod gwybodaeth y staff yn cael ei phrofi a'i diweddaru'n rheolaidd. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant yn dda. Caiff mesurau iechyd a hylendid eu hybu yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn sicrhau bod cynnwys pecynnau cinio'r plant, sy'n dod o gartref, yn iach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi systemau ar waith i reoli alergeddau ac anoddefiadau yn ddiogel. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn dda, ac yn rhannu'r wybodaeth hon â'r rhieni. Mae'r staff yn glir ynglŷn â'r polisïau a'r gweithdrefnau yn y lleoliad ac yn eu dilyn yn agos.

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio ac ymddygiad yn y lleoliad yn dda. Maent yn dangos cynhesrwydd, amynedd a charedigrwydd tuag at y plant. Clywsom y staff yn annog y plant yn rheolaidd gan ddefnyddio ymadroddion cadarnhaol a gofalgar, fel “*da iawn, ti*” a “*bydd yn ofalus, mae hi’n uchel*”. Mae'r staff hefyd yn atgoffa'r plant yn garedig i rannu, i gymryd eu tro ac i chwarae'n ofalus. Mae'r staff yn fagwrus, yn sensitif, ac yn ymwybodol o anghenion pob plentyn sy'n cael gofal ganddynt. Mae'r staff yn modelu arferion cyfathrebu cadarnhaol i'r plant ac yn hyrwyddo awyrgylch cadarnhaol, heddychlon a llawen gan chwerthin a gwenu.

Mae'r staff yn hwyluso chwarae'r plant ac yn sicrhau bod adnoddau ar gael iddynt drwy gydol y dydd. Mae'r staff yn frwdfrydig ac yn sicrhau bod y plant yn hapus bob amser. Mae'r staff yn ymuno'n naturiol â'r plant yn eu chwarae drwy gydol y dydd drwy sgwrsio â nhw am yr hyn y maent yn ei wneud ac am bethau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu'r gofal y maent yn ei roi yn naturiol i'r plant. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i chwarae a dysgu yn yr awyr agored bob dydd.

## Yr Amgylchedd — Da

Lleolir y clwb gwyliau ym mhrif neuadd ysgol gynradd. Mae'r brif neuadd, toiledau, ystafell staff ac ardaloedd awyr agored mawr ar gael i'r clwb eu defnyddio. Mae'r amgylchedd yn braf ac yn ddiogel, ac mae digon o le i gynnal gweithgareddau'r plant. Caiff y prif ddrws sy'n arwain at y stryd ei gloi a rhaid i aelod o'r staff ganiatáu i bobl ddod i mewn. Mae ymwelwyr yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael yr adeilad. Mae'r rhieni yn llofnodi i ddangos pan fydd eu plant yn cyrraedd ac yn gadael y sesiwn, gan nodi'r amseroedd. Mae gan yr arweinwyr nifer o asesiadau risg ar waith sy'n nodi ac yn dileu risgiau i ddiogelwch y plant, y staff ac ymwelwyr cymaint â phosibl. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd. Mae maes i'w wella a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â hyn bellach wedi ei gyflawni a'i gau. Fodd bynnag, mae rhywfaint o wybodaeth ar goll o'r cofnodlyfrau ar gyfer yr ymarferion tân, gan gynnwys yr amser a gymerwyd i adael yr adeilad a nifer y plant a'r oedolion a oedd yn bresennol yn ystod yr ymarferion.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Mae digon o adnoddau yn y brif neuadd, megis gemau bwrdd, adnoddau celf a chrefft, gemau cyfrifiadurol a lle i'r plant ymlacio. Mae'r plant yn cael budd o ardal awyr agored fawr. Mae dewis o adnoddau i feithrin eu sgiliau echddygol bras ar gael iddynt. Er enghraifft, sgwteri, gemau pêl, ceir ac ardal i'r plant ymlacio a bod o amgylch natur.

Ceir amrywiaeth addas o deganau ac adnoddau sy'n diwallu anghenion ac ystod oedran amrywiol y plant sy'n mynychu'r clwb. Gall y plant gael gafael ar adnoddau yn annibynnol am eu bod yn cael eu storio mewn ffordd hygyrch, sy'n golygu bod plant o bob oedran yn gallu cael gafael arnynt. Mae'r dodrefn a ddefnyddir gan y plant i eistedd arno yn ystod y sesiwn ar lefel isel ac yn addas i bob plentyn sy'n mynychu'r lleoliad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r ffordd y caiff ei weithredu. Ers yr arolygiad diwethaf, mae Unigolyn Cyfrifol newydd wedi cael ei benodi. Mae'n awyddus i wneud gwelliannau pellach i'r gwasanaeth. Mae'n rhoi pwyslais ar greu gwasanaeth cynnes a gofalgar i'r plant. Caiff cynhesrwydd a gweledigaeth frwd yr arweinwyr eu rhannu â'r staff, sy'n rhoi ymdeimlad cadarnhaol cyson drwy'r lleoliad cyfan. Ceir datganiad o ddiben clir a chyfredol sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei weithredu ar hyn o bryd. Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal hunanwerthusiadau ac yn cynllunio ar gyfer gwella. Maent yn cael adborth gan y rhieni, y plant a'r staff ac yn myfyrio'n ofalus ar eu hymarfer er mwyn llunio adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal. Gwnaethant ymgysylltu'n llwyr â'r broses arolygu er mwyn gwella ansawdd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn rhoi gwybod yn rheolaidd i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth. Er enghraifft, digwyddiadau o bwys, diweddariadau i'r rhestrau staff a'r datganiad o ddiben ac mae wedi cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) yn ddiweddar. Mae maes i'w wella a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â hyn bellach wedi'i gyflawni ac wedi ei gau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ffeiliau'r staff yn gyfredol ac yn ymgymryd â'r holl wiriadau perthnasol er mwyn gwneud yn siŵr bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n rheolaidd. Fodd bynnag, ni chaiff unrhyw ddyddiadau eu cofnodi pan gynhelir cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu. Mae'r ddau Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â ffeiliau'r staff a sesiynau goruchwylio ac arfarnu staff wedi cael eu cyflawni a bellach wedi eu cau. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hapus a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r cydberthnasau gwaith rhwng y person â chyfrifoldeb a'r unigolyn cyfrifol yn gryf, yn gefnogol ac yn gyson ac maent yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr. Maent hefyd wedi meithrin partneriaethau buddiol iawn ag asiantaethau allanol, ac maent yn ceisio cydweithio â nhw i ddarparu gofal o ansawdd i'r plant. Er enghraifft, maent wedi meithrin cydberthynas waith gadarn â'r ysgol gynradd y maent wedi'u lleoli ynddi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 28 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y gwiriadau addasrwydd gofynnol yn cael eu cynnal ar y staff a gaiff eu cyflogi cyn iddynt gael eu penodi yn y lleoliad bob amser. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol fodloni ei hun bod y staff a gaiff eu cyflogi yn meddu ar y cymwysterau a'r sgiliau priodol a'u bod yn addas i weithio gyda phlant. | Cyflawnwyd |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd i ennill cymwysterau hyfforddiant gorfodol er mwyn eu | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | cefnogi yn eu rolau yn y ffordd orau. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 31 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol roi gwybod i AGC am unrhyw ddigwyddiadau o bwys o fewn yr amserlenni priodol. | Cyflawnwyd |
| 38 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau ei fod yn cymryd camau digonol i ddiogelu'r bobl rhag y risg o dân. Rhaid sicrhau bod rhagofalon diogelwch digonol ar waith a'u bod yn cael eu dilyn fel mater o drefn. | Cyflawnwyd |
| 24 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod nifer perthnasol o staff yn meddu ar gymwysterau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i ymateb yn briodol i unrhyw ddigwyddiad lle mae angen ymyrraeth cymorth cyntaf. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei hychwanegu at y cofnodlyfrau ar gyfer ymarferion tân. |
| Sicrhau bod dyddiadau yn cael eu cofnodi ar y gwaith papur er mwyn nodi'n union pryd y cynhaliwyd y sesiynau goruchwylio ac arfarnu. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/05/2024